# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## 10 RHAGFYR 2020

| |
|---|
| **ADOLYGU'R POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL A DIWEDDARIAD AR GYNNYDD** |
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br>• **Cymeradwyo'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol sydd wedi'i ddiweddaru**<br>• **Nodi'r Diweddariad Cynnydd Blynyddol, yn cynnwys sefydlu Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Cymeradwyodd y CBLl y Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) ym mis Medi 2019. Bydd y polisi'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi adolygu'r Polisi BC ac mae angen i'r newidiadau gael eu cymeradwyo gan y CBLl.<br><br>Mae diweddariad cynnydd blynyddol wedi'i gynnwys hefyd sy'n rhoi asesiad manwl o'r cynnydd mae PPC wedi'i wneud tuag at gyflawni'r ymrwymiadau yn ei Bolisi BC a manylion ynghylch sefydlu'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol newydd i PPC. |



| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Chris Moore** | **Swydd:**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **Rhif Ffôn: 01267 224160**<br><br>**E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |
|---|---|---|

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

# 10 RHAGFYR 2020

## ADOLYGU'R POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL A DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

**CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Mae gan PPC Bolisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) a gafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cydbwyllgor ym mis Medi 2019. Cafodd y polisi cyffredinol ei ddatblygu ar y cyd gan y Bartneriaeth a'i wyth Awdurdod Unigol a chafodd ei fabwysiadu ganddynt i gyd. Ar yr un pryd, roedd yn gadael i'r Awdurdodau Unigol gynnal a datblygu eu polisïau BC eu hunain.

Cynhaliwyd Adolygiad blynyddol o'r polisi ac fe wnaed nifer o newidiadau i'r polisi i adlewyrchu’r datblygiadau dros y 12 mis diwethaf, yn benodol gyda'r polisïau newydd a gymeradwywyd, a phenodi'r darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Mae’r Gweithgor Swyddogion / yr Is-grŵp BC yn ffyddiog fod y polisi BC yn addas i bwrpas ac yn parhau i adlewyrchu credoau a strategaeth BC y Bartneriaeth. Mae Polisi BC diweddaredig ynghlwm i chi ei gymeradwyo.

Yn ystod y flwyddyn hon mae'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Unigol wedi gweithio i weithredu a chyflawni'r gwahanol ymrwymiadau polisi, ac mae hyn wedi'i amlinellu yn y papur Adolygiad Blynyddol, sydd hefyd ynghlwm. Mae Atodiad 1 y papur hwn yn rhoi asesiad manwl o'r cynnydd a wnaeth y Bartneriaeth o ran cyflawni'r ymrwymiadau sydd yn ei bolisi BC. Mae'r papur yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn sawl maes allweddol: Risg Hinsawdd, Pleidleisio ac Ymgysylltu, Hyfforddiant ac Ymgynghori a'r Is-grŵp BC newydd dros y 12 mis diwethaf, a'r cynllun gwaith BC am y 12 mis nesaf.

Mae PPC hefyd wedi sefydlu Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth i gynorthwyo i gyflawni dyheadau ac ymrwymiadau Buddsoddi Cyfrifol PPC. Gellir gweld cylch gorchwyl y Grŵp yn Atodiad 2 y papur Adolygiad Blynyddol.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br><br>**DIM** | Cyllid<br><br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br><br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br><br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |
|---|
| |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |